Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pentrecelyn

**Pentrecelyn
Rhuthun
LL15 2HG**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Pentrecelyn

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Pentrecelyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 31 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 26 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw’n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 16.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 73.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 03/11/2014 |
| Dyddiad dechrau’r arolydiad | 28/02/2023 |

Daw’r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Pentrecelyn yn ysgol gartrefol, hapus lle mae'r disgyblion a'r oedolion yn cydweithio'n effeithiol. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Maent yn foesgar a charedig gyda'i gilydd a gydag ymwelwyr a staff. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o ymgysylltu'n ddyddiol â disgyblion o'r dosbarthiadau eraill, er enghraifft wrth gyd-giniawa, ac yn ystod gweithgareddau yn y goedwig. Mae gan yr ysgol ystod fuddiol o bartneriaethau yn lleol ac yn ehangach ac mae hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn dros gyfnod.

Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm difyr sy'n canolbwyntio ar eu milltir sgwâr, tra hefyd yn edrych ar berthynas yr ardal â Chymru a'r byd ehangach. O'r cychwyn cyntaf, mae'r disgyblion yn elwa o weithgareddau dysgu difyr ac ymestynnol sy'n caniatáu iddynt fagu annibyniaeth, a dysgu i drafod a chydweithio â'u cymheiriaid. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu medrau rhifedd, llythrennedd a medrau digidol trwy themâu diddorol sy'n aml yn canolbwyntio ar y gymuned amaethyddol yn lleol. Mae'r disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â gweithgareddau a heriau amrywiol.

Mae medrau llafar a darllen y disgyblion yn gadarn, ac maent yn siarad yn naturiol gyda'u ffrindiau gan ddefnyddio geirfa gyfoethog. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos medrau rhifedd effeithiol. Gall y rhan fwyaf ddefnyddio offer digidol yn aeddfed ar gyfer gwahanol ddibenion. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig wedi datblygu'n llawn, ac nid yw lefel yr her bob amser yn gyson mewn ychydig o weithgareddau.

Mae'r pennaeth a'r tîm ymroddgar o athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cynnal a datblygu'r ddarpariaeth. Maent yn cynnig gwahanol ymyraethau i gynnal lles a hyder y disgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn cynllunio'n fanwl ar eu cyfer. Mae'r corff llywodraethol yn gweithredu'n llwyddiannus fel ffrind beirniadol i'r ysgol gan gydweithio'n agos â'r pennaeth a'r tîm.

## Argymhellion

A1 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ysgrifennu’n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau

A2 Sicrhau bod profiadau dysgu’n herio disgyblion i ddatblygu eu medrau i safon uchel

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau tua’r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran ac yn gwneud cynnydd cadarn dros gyfnod. Mae’r rhan fwyaf yn adalw dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus mewn gwahanol gyd-destunau. Mae medrau modur mân a medrau corfforol y plant ieuengaf yn datblygu’n dda trwy amrediad cyfoethog o weithgareddau a chyfleoedd chwarae. Er enghraifft, maent yn datblygu cydbwysedd a chryfder corfforol trwy adeiladu pontydd a’u croesi’n ofalus. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth dysgu sylfaen yn plicio llysiau a’u torri’n ofalus wrth baratoi cawl i’w weini oddi ar y tân yn yr ysgol goedwig.

Mae llawer o blant y dosbarth dysgu sylfaen yn siarad yn hyderus a chywir gyda’u ffrindiau, er enghraifft wrth drafod y man gorau i blannu tatws yng ngardd yr ysgol. Maent yn awgrymu y byddai plannu’r tatws mewn teiar wedi ei lenwi gyda phridd yn syniad da. Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn gwrando’n astud ar oedolion ac ar ei gilydd yn ystod gweithgareddau. Maent yn awyddus i holi cwestiynau, ac yn cynnig atebion aeddfed. Er enghraifft, maent yn egluro sut aethant ati i oleuo’r bwlb trwy gael breichiau’r felin wynt i droi. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg graenus a naturiol gan gynnwys disgyblion lle nad yw’r Gymraeg yn iaith yr aelwyd. Maent yn ymateb yn aeddfed i gwestiynau, gan roi ystyriaeth dda i’w hymatebion. Er enghraifft, maent yn trafod rhesymau’r Cymry dros ymfudo i Batagonia ym 1865, gan gyfeirio at effaith brad y llyfrau gleision ar awydd y Cymry i ymfudo i’r Wladfa.

Mae’r disgyblion ieuengaf yn adnabod nifer gynyddol o lythrennau ac yn dechrau adeiladu geiriau cyfarwydd. Mae disgyblion y Derbyn yn darllen yn gynyddol hyderus, gyda disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn darllen darnau mwy estynedig, gan arddangos dealltwriaeth dda. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth dysgu sylfaen yn mwynhau darllen rhannau o stori am daten arbennig fel rhan o’u gwaith thema am Arwyr. Eglurant mai’r bysen yw’r cymeriad drwg yn y stori ac yn defnyddio ciwiau gweledol i ailadrodd yr hanes. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn darllen yn hyderus yn unol ag oedran a gallu yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae’r disgyblion sy’n derbyn cefnogaeth yn gwneud cynnydd buddiol yn eu medrau darllen ac yn datblygu hyder wrth ddehongli testunau. Mae’r disgyblion hynaf yn cywain gwybodaeth yn hyderus a’i defnyddio i’w helpu gyda’u gwaith.

Mae llawer o’r disgyblion ifanc yn ysgrifennu darnau ffeithiol diddorol sy’n arddangos eu dealltwriaeth o wahanol esgyrn y corff, o’r lleiaf i’r mwyaf. Maent yn gweithio mewn grwpiau er mwyn creu sgript am hanes Santes Dwynwen, gyda’u gwaith yn arddangos atalnodi syml cadarn a geirfa ddiddorol. Mae llawer o’r disgyblion hynaf yn ysgrifennu gyda lefel briodol o gywirdeb mewn amrywiol gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn creu ymson teimladwy am gymeriad Twm bach ar ei daith i Dde America. Fodd bynnag, nid yw hyder ychydig o’r disgyblion hŷn i ysgrifennu mewn amrywiol ffurfiau estynedig wedi datblygu’n llawn.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae’r plant ieuengaf yn datblygu ymwybyddiaeth o ystyr rhifau yn gynnar ac yn dechrau eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion y Meithrin yn cyfri’n naturiol wrth ‘nôl tair taten a dwy foronen o’r silff a’u gwerthu i’w ffrindiau, gan

ddefnyddio arian o'r til yn y siop. Mae disgyblion dysgu sylfaen yn datblygu ymwybyddiaeth o gymesuredd trwy greu darlun cymesur gyda brigau, moch coed a cherrig yn y goedwig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion dosbarth y plant hŷn yn arddangos medrau rhifedd cadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn gwahanol gyd-destunau difyr. Er enghraifft, maent yn dysgu am gostau ac elw fel rhan o'u gwaith mentergarwch 'Coffi Celyn.' Maent yn trafod ffracsiynau yn bwrpasol wrth drafod caeau a stoc ac yn defnyddio bas data'n hyderus i ddod o hyd i wybodaeth am deithwyr y Mimosa ym 1865. Maent yn ystyried enwau'r teithwyr, eu hoedran a lleoliad eu cartrefi yng Nghymru ac yn creu graffiau cywir o'r data.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cadarn wrth ddefnyddio offer a meddalwedd digidol. Mae llawer o ddisgyblion ifanc yr ysgol yn defnyddio codau QR er mwyn dethol gweithgareddau gyda lefel her benodol ac yn defnyddio'r neges lafar sy'n egluro manylion y dasg. Mae disgyblion y dosbarth hŷn yn cydweithio'n hynod effeithiol i greu cyflwyniadau arbennig sy'n egluro gwahanol draddodiadau Cymreig fel hanes y Fari Lwyd ar aded dydd Calan. Mae eu gwaith yn arddangos ymchwil manwl, sgriptio effeithiol, a pherfformio a golygu graenus. Mae'r cynhyrchiad terfynol o safon uchel.

Mae medrau cydweithio a datrys problemau y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn dyfalbarhau'n ddygn wrth geisio sicrhau bod breichiau'r felin wynt yn troi er mwyn goleuo'r bwlb yn eu model. Mae llawer o'r plant yn creu paentiadau hynod effeithiol o Eglwys Ynys Llanddwyn sy'n arddangos gwahanol liwiau'r machlud. Mae'r plant yn canu'n swynol yn ystod eu paratoadau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, ac yn ystod eu dathliadau Gŵyl Dewi a gwasanaethau ysgol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob disgybl yn hapus, yn gwrtais a chlên. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol a'r gymuned amaethyddol maent yn rhan annatod ohoni. Maent yn gwerthfawrogi'r profiadau cyfoethog mae'r ysgol yn eu darparu. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn hyderus bod staff yn eu trin yn deg bob amser. Mae gan ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol a balchder wrth siarad am eu gwaith. Maent yn hyderus i drafod eu gweithgareddau gydag ymwelwyr. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn trafod eu gwaith mentergarwch yn ymwneud â blaengaredd Coffi Celyn.

Mae'r disgyblion yn gwrando ar gyflwyniadau yn aeddfed, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn ymrwymo i gyflawni eu tasgau yn llwyddiannus. Maent yn datblygu hyder wrth drafod â'u cymheiriaid ac yn perthnasu tasgau a wnaethant yn flaenorol i'w gwaith presennol. Er enghraifft, maent yn trafod eu gwaith am gyfandir De America wrth ddysgu am Y Wladfa.

Ar draws yr ysgol, mae ganddynt wybodaeth gadarn am sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Enghraifft o hyn yw'r modd y maent yn dylunio crysau-t er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd diogelwch ar y we. Mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol. Maent yn dangos caredigrwydd gwirioneddol at eu cyd-ddisgyblion, ac yn ystyried eu hanghenion a'u teimladau. Mae eu hymddygiad yn ystod gwasanaethau torfol yn arbennig, gyda disgyblion hŷn yr ysgol yn gofalu am y disgyblion ieuengaf. Maent yn gwrtais ag oedolion ac ymwelwyr ac yn ymdrin â'i gilydd yn barchus, er enghraifft wrth ystyried barn disgyblion eraill yn y gwasanaeth Gŵyl Ddewi.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymgymryd â'u tasgau'n gydwybodol gan ymateb yn bositif i arweiniad yr oedolion. Mae ganddynt ddiddordeb ymhob agwedd o'u gwaith ac maent yn ymroi'n llawn i'w tasgau. Mae bron pob disgybl yn barod i ddysgu ar ddechrau sesiynau ac yn symud rhwng sesiynau yn sydyn a diffwdan. Mae llawer yn cynorthwyo ei gilydd ac yn gweithio'n llwyddiannus mewn parau a grwpiau o fewn y dosbarthiadau. Er enghraifft, yn y dosbarth dysgu sylfaen, mae grwpiau o ddisgyblion yn gweithio'n annibynnol am gyfnodau estynedig wrth geisio cydbwyso darnau o lysiau gyda nifer o giwbiau. O oedran cynnar, maent yn rhoi cynnig ar dasgau newydd a mwy heriol, ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth am sut i wella eu gwaith. Mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am eu lles emosiynol ac yn ymateb yn aeddfed i gyfleoedd i drafod eu teimladau. Maent yn datblygu gwydnwch emosiynol gwerthfawr trwy gyfleoedd i feddwl am yr hyn sy'n eu pryderu, gan gynnwys taflu'r pryder fel brigyn i'r tân yn yr ysgol goedwig.

Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ac yn mwynhau eu gwaith yn yr awyr agored. Cânt gyfleoedd diddorol i ddatblygu eu medrau corfforol yn ystod gwersi ymarfer corff ac yn ystod amseroedd egwyl. Mae nifer o'r disgyblion hŷn hefyd yn manteisio ar y cyfle i gynrhychioli clybiau chwaraeon lleol.

Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos balchder yn eu cyfrifoldebau fel rhan o'r cabinet disgyblion a chymerant eu swyddi o ddifrif. Mae llais y disgyblion yn glir, yn gadarn ac yn gaffaeliad i'r ysgol. Prif gryfderau'r ysgol, ym marn y cabinet, yw'r cyfoeth o brofiadau y maent yn eu derbyn ynghyd â phrofiadau allgyrsiol gwerthfawr. Maent yn falch o'r ffaith bod pawb yn adnabod ei gilydd a bod cyfleoedd i'r disgyblion hynaf ymgysylltu'n ddyddiol â'r disgyblion ieuengaf. Mae hyn, yn eu barn nhw, yn creu uned deuluol glos, lle mae pawb yn gofalu am ei gilydd. Mae'r Siarter Iaith yn cael ei harwain gan ddau gynrychiolydd o'r cabinet. Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn annog y disgyblion i ddathlu eu Cymreictod trwy ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol trwy ddatblygu eu hymwybyddiaeth o gynaliadwedd. Er enghraifft, ar frig yr ysgol, maent yn dysgu am bwysigrwydd creu trydan adnewyddadwy, ac am bwysigrwydd ailgylchu.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu amrediad cyfoethog o brofiadau dysgu ar gyfer disgyblion o bob oed. Mae'r arweinwyr a'r athrawon yn datblygu cwricwlwm cytbwys sydd wedi ei seilio'n yr ardal leol, ac yn adlewyrchu diddordebau a dyheadau'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae arweinwyr ac athrawon yn defnyddio diddordebau'r disgyblion i gynllunio themâu sy'n eu diddori, gan gynnig amrediad o brofiadau difyr. Mae'r athrawon yn rhannu cyfrifoldeb am feysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru, ac yn rhannu arferion ac arbenigeddau yn rheolaidd. Enghraifft nodedig o hyn yw'r gwaith ar ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion mewn cyd-destunau amaethyddol

Mae'r athrawon yn ymateb yn effeithiol i anghenion gwahanol ddisgyblion ac yn darparu cyfleoedd iddynt ddewis lefel yr her mewn gweithgareddau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu gwaith yn aeddfed a hyderus, ac yn mynegi barn ynglŷn â'r hyn maent yn ei ddysgu. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o heriau gwahanol yn y dosbarth dysgu sylfaen, lle mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddethol gweithgareddau, gan wirio disgwyliadau'r tasgau trwy wrando ar

gyfarwyddiadau sydd wedi eu recordio gan oedolion. Mae hyn yn magu annibyniaeth ymysg y disgyblion yn llwyddiannus. Ym mhen uchaf yr ysgol, mae'r athrawon yn darparu heriau ar gyfer disgyblion ar wahanol gamau o ddatblygiad ac mae'r disgyblion yn ymateb yn aeddfed i'w tasgau. Fodd bynnag, mewn ychydig o weithgareddau, gyda'r disgyblion hynaf yn bennaf, nid yw lefel yr her bob amser yn caniatáu i bob disgybl ddatblygu eu medrau i safon uchel.

Ar fynediad i'r ysgol, mae'r athrawon yn gweithredu asesiadau cychwynnol sy'n gosod gwaelodlin ac yn helpu athrawon i gynllunio'r camau nesaf i'r disgyblion. Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu trylwyr. Mae'r staff yn cynnal cyfarfodydd cynnydd rheolaidd sy'n gyfle iddynt gyfrannu at sicrhau bod pob unigolyn yn cael cefnogaeth a her, yn ôl y galw. Mae'r athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n cynnal diddordeb y disgyblion a chodi eu dyheadau am yrfaoedd a byd gwaith. Enghraifft nodedig o hyn yw'r gwaith GTPAM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, amaethyddiaeth, mathemateg) sy'n darparu cyfleoedd i'r disgyblion gynhwyso eu medrau mewn cyd-destunau go iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu Cymraeg a Saesneg y disgyblion yn effeithiol. Maent yn cael amrediad pwrpasol o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau diddorol ac ymarferol. Mae cyfleoedd estynedig ac effeithiol iawn iddynt fagu annibyniaeth wrth ddefnyddio offer digidol er mwyn cwblhau tasgau estynedig. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion y dosbarth hŷn  ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig wedi eu datblygu'n llawn.

Ar draws yr ysgol, mae perthynas waith agos ac annwyl rhwng y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn cynnal lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn annog meddylfryd gadarnhaol ymysg y disgyblion ac yn pwysleisio pwysigrwydd herio eu hunain a pheidio â bod ofn methu, weithiau. Mae'r holl staff yn holi cwestiynau ymestynnol yn gelfydd, er enghraifft wrth drafod sut i sicrhau bod planhigion yn ffynnu yn yr ardal allanol.

Mae'r athrawon yn darparu adborth llafar defnyddiol i'r disgyblion yn ystod eu gweithgareddau dysgu, ynghyd â sylwadau datblygiadol sy'n ymwneud yn benodol â'r meini prawf llwyddiant a bennwyd ar gyfer y dasg. Maent yn darparu cyfleoedd i'r plant ymateb i'w gwaith eu hunain, ac i waith eu cymheiriaid. Mae'r gweithgareddau hyn wedi eu sefydlu'n dda yn y ddau ddosbarth.

Mae dosbarthiadau a'r amgylchedd allanol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddatblygu chwilfrydedd y disgyblion, er enghraifft  y 'Cwt Celyn,' lle mae'r disgyblion yn ymchwilio, chwarae, a pherfformio. Mae'r profiadau mae'r disgyblion yn eu cael yn yr ysgol goedwig yn datblygu eu hyder a'u medrau cydweithio yn llwyddiannus.

Mae perthynas agos a chefnogol yn bodoli rhwng yr ysgol a rhieni a gofalwyr. Mae'r staff yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac yn rhannu adroddiadau defnyddiol er mwyn sicrhau bod gan rieni a gofalwyr wybodaeth gyfredol am gynnydd eu plant.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ymdeimlad cryf o Gymreictod a balchder yn yr iaith yn sylfaen i holl waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am eu cymuned a'u hardal. Er enghraifft, wrth ddysgu am hanes Ysgol Pentrecelyn,

gwahoddwyd merch cyn bennaeth i ymweld â'r ysgol er mwyn trafod ei phrofiad o fyw yn nhŷ'r ysgol tra'n blentyn.

Mae'r cyfoeth o ardaloedd dysgu o fewn a thu allan i'r adeiladau yn cefnogi lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae ardaloedd fel yr ysgol goedwig, yr ardd a Chwt Celyn, ynghyd â'r ethos gofalgar, yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu. Mae gan y pennaeth a'r athrawon adnabyddiaeth drylwyr o anghenion bob disgybl. Maent yn gosod pwyslais cryf ar gynnig darpariaeth sy'n diwallu anghenion unigol y disgyblion. Mae gan bob disgybl broffil cynhwysfawr sy'n adlewyrchu eu diddordebau a'u anghenion. Mae'r staff yn ystyried lles emosiynol disgyblion gan gofnodi datblygiadau mewn naratif a adolygir yn dymhorol. Mae'r defnydd o log dysgu a'r sesiynau un i un hefyd yn werthfawr wrth gefnogi disgyblion trwy gyfnodau heriol.

Mae'r staff yn ymateb i'r cyfnod heriol diweddar, a'i effaith ar ddisgyblion, drwy ymyraethau buddiol ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar les y disgyblion. Enghraifft o hyn yw'r modd y trefnwyd i gwmni drama lleol  ymweld â'r ysgol er mwyn cynnal sesiynau wythnosol i fagu hyder disgyblion. Mae'r ddarpariaeth 'Cais am Air' a 'Tisho Sgwrs' yn gyfle i ddisgyblion ddatgan pryderon mewn modd sensitif a diogel. Mae aelod staff wedi ei hadnabod fel person cyswllt ar gyfer y disgyblion a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae'r staff yn gweithio'n llwyddiannus gyda nifer o asiantaethau fel y gwasanaeth cyswllt teuluoedd a'r gwasanaeth iaith a lleferydd. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau cynhaliaeth gref i'r disgyblion.

Oherwydd natur yr ysgol, mae pob disgybl yn cael cyfleoedd gwerthfawr i fynegi eu barn ar benderfyniadau am waith yr ysgol. Gwneir hyn trwy gyfrannu ar lawr y dosbarth, yn y gwasanaeth ac fel rhan o'r cabinet. Mae gan aelodau'r cabinet rolau pendant, er enghraifft wrth annog defnydd o'r Gymraeg.  Mae'r aelodau eco wedi ystyried y pellter roedd eu bwyd bore yn teithio er mwyn cyrraedd yr ysgol, a phenderfynu penodi darparwr lleol i'w gyflenwi. Erbyn hyn, mae'r nwyddau'n  dod o fferm leol ac maent yn falch bod hyn yn lleihau eu hôl-troed carbon.

Mae'r ysgol hefyd yn rhoi bri mawr ar gydraddoldeb sydd yn helpu disgyblion i ddeall materion sy'n ymwneud â chynhwysiant a hawliau pobl eraill. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r cabinet wedi llunio siarter cydraddoldeb sydd yn weledol ar draws yr ysgol. Mae'r siarter hon yn eu hatgoffa o'u dyletswydd at eu cyd-ddyn. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd cadarn I werthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng da a drwg yn ogystal â sicrhau hawliau pobl eraill. Mae'r ysgol yn rhoi cefnogaeth dda i bob disgybl,  beth bynnag eu cefndir. Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant diogelu yn effeithiol trwy weithdrefnau manwl sy'n adnabyddus i bawb.

Mae'r ysgol yn darparu'n gadarn ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r cyswllt rhwng yr ysgol a Makhai Primary School yn Uganda yn fodd gwerthfawr i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o barch ac empathi. Cynhelir gwasanaethau yn dorfol ac o fewn y dosbarthiadau yn rheolaidd. Cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel Pentrecelyn er mwyn casglu rhoddion ar gyfer y banc bwyd lleol. Aeth y disgyblion hynaf â'r cynnyrch bwyd i'r ganolfan leol yn Rhuthun. Roedd hyn yn gymorth i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd helpu bobl eraill. Mae'r trefniadau cinio yn galluogi'r oedolion a disgyblion yr ysgol gyfan i giniawa ar yr un pryd. Mae hyn yn fodd i gyfoethogi'r elfen deuluol sy'n nodwedd mor arwyddocaol o'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad y disgyblion, ac o ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn hynod foesgar a charedig â'i gilydd, a gyda'r staff ac ymwelwyr. Mae'r ymdeimlad hwn o berthyn yn golygu bod y disgyblion yn awyddus i ddod i'r ysgol bob dydd ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar bresenoldeb tros gyfnod. Mae diwylliant cryf o ddiogelu wedi gwreiddio ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r holl weithdrefnau, ac yn cael hyfforddiant priodol yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd sy'n annog disgyblion i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a hamdden. Er enghraifft, mae cyfleoedd niferus iddynt gymryd rhan mewn twrnameintiau chwaraeon, perfformiadau a chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Mae pontio effeithiol ac ystyriol rhwng y cynradd a'r uwchradd trwy ymweliadau cyson a chyfleoedd i'r disgyblion ddod i adnabod disgyblion eraill yn lleol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol cadarn a chlir ar gyfer yr ysgol. Mae ei weledigaeth wedi ei seilio ar arwyddair yr ysgol, sef 'dysgu, mwynhau a chwarae yn Gymraeg.' Mae'r holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, ac mae ei heffaith i'w gweld ar ddatblygiad, cynnydd a lles y disgyblion. Mae'r rhieni a'r gofalwyr hwythau'n cydweithio'n agos â'r ysgol er mwyn hyrwyddo datblygiad a hyder y plant.

Mae ymdeimlad cryf o berthyn wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Mae'r tim brwdfrydig o athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau darpariaeth gyfoethog mewn cyd-destun lleol a Chymreig. Mae lles y disgyblion yn greiddiol i'w holl waith ac mae'r staff a'r disgyblion yn cydweithio'n hapus. Mae'r pennaeth yn hwyluso cydweithio effeithiol gyda holl randdeiliaid yr ysgol ac yn chwilio am ddulliau cyfoethog ac amgen o sbarduno meddwl a dychymyg y disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi datblygiad strategol yr ysgol yn llwyddiannus. Maent yn cynnal cyfarfodydd llawn yn dymhorol, ac fe gynhelir pwyllgorau amrywiol. Mae'r pwyllgorau yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod llawn er mwyn derbyn gwybodaeth a chadarnhau penderfyniadau. Trwy eu gwaith manwl, maent yn gweithredu'n effeithiol fel ffrind beirniadol i'r ysgol. Maent yn cefnogi'r pennaeth gyda'r gwaith o ddatblygu partneriaethau er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ym Mhentrecelyn.

Mae gan y llywodraethwyr gyfrifoldebau am agweddau penodol ac maent yn ymweld â'r ysgol er mwyn trafod gyda staff, er enghraifft wrth edrych ar elfennau fel diogelwch neu ddysgu proffesiynol. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am ddatblygiadau diweddar gyda'r Cwricwlwm i Gymru, ac o ddisgwyliadau diwygio anghenion dysgu ychwanegol a'u heffaith ar yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn cynnal teithiau dysgu ar y cyd â'r pennaeth neu staff allweddol, gan graffu ar waith disgyblion a thrafod datblygiadau o ran addysgu a chynllunio. Er enghraifft, bu llywodraethwyr ar daith dysgu'n canolbwyntio ar weithgareddau digidol ar y cyd â swyddog y consortiwm rhanbarthol. Yn sgil y gwaith, penderfynwyd buddsoddi mewn offer cyfrifiadurol ar gyfer bob disgybl. Bellach, mae effaith hyn i'w gweld ar gynnydd y disgyblion. Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd hyrwyddo diwylliant o fwyta ac yfed yn iach ymysg y disgyblion.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod holl staff yr ysgol yn cyfrannu at weithdrefnau hunanwerthuso trwy weithgareddau fel cyfarfodydd cynnydd lle maent yn craffu ar ddatblygiad disgyblion, ac ar wahanol agweddau ar y ddarpariaeth. Mae'r gwaith hwn ar ddull model rhesymeg sy'n canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu'r ddarpariaeth er mwyn cynnal a gwella safonau'n barhaus. Mae'r gweithdrefnau'n crynhoi camau gweithredu addas, ac yn talu sylw manwl i werthuso effaith y gweithredu.

Mae'r athrawon yn ysgwyddo cyfrifoldebau niferus ac yn rhannu a chydweithio'n rheolaidd a hyblyg gyda'i gilydd. Maent yn chwarae rôl lawn yn y broses ar gyfer gwerthuso a datblygu cwricwlwm yr ysgol. Mae hyn i'w weld yn arbennig yn y modd y maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored ac wrth fwynhau profiadau sy'n codi o gyd-destunau lleol.

Mae'r cynlluniau ar gyfer dysgu proffesiynol yn effeithiol. Mae aelod staff yn rhan o glwstwr digidol yn lleol, sy'n canolbwyntio ar rannu arbenigedd ac arferion gyda'r fframwaith cymhwysedd digidol. Rhoddodd hyn fudd mawr i'r ysgol ac mae wedi effeithio'n gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac ar hyder a datblygiad disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cefnogi aelodau staff i hyfforddi mewn meysydd penodol, sydd yn ei dro'n ehangu'r profiadau dysgu maent yn eu darparu ar gyfer y disgyblion. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu ardal ysgol y goedwig gan ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn yr awyr agored.

Mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn cyfrannu at amcanion rheoli perfformiad staff. Cryfder yn yr ysgol yw bod yr athrawon yn rhannu cyfrifoldebau wrth gyd-drafod cynlluniau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Mae'r athrawon hefyd yn cydweithio'n agos â swyddogion y consortiwm rhanbarthol, er enghraifft wrth graffu ar ddulliau addysgu. Mae hyn wedi arwain at lunio gweledigaeth drylwyr ac effeithiol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm ac addasu dulliau addysgu er mwyn annog annibyniaeth ymysg y disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/05/2023